Mae'n bleser gennym groesawu cyflogwyr i adeilad eiconig Canolfan Bywyd y Myfyrwr yng nghanol y brifysgol, yn ogystal â nodi lleoliadau eraill ar y campws sy'n eich rhoi o flaen y myfyrwr yr ydych am gwrdd â nhw.

### Digwyddiadau o dan sylw

Mae ein ffeiriau a'n digwyddiadau gyrfaoedd yn rhoi'r cyfle i fyfyrwr gwrdd â chynfyfyrwr a chyflogwyr yn ogystal â chael gwybod rhagor am swyddi i raddedigion, interniaethau a lleoliadau gwaith. Maen nhw hefyd yn eu helpu i ddod o hyd i'w gyrfa yn y dyfodol drwy gynnig sesiynau sgiliau, sgysiau a gweithdai.

Bydd ein **Ffair Gyrfaoedd a Lleoliadau** poblogaidd yn dychwelyd yn hydref 2024. Mae'n ddigwyddiad recriwtio hynod ddefnyddiol i unrhyw sefydliad sydd am godi ymwybyddiaeth o'i frand a hyrwyddo lleoliadau gwaith, interniaethau, swyddi lefel mynediad a swyddi i raddedigion i'n myfyrwr amrywiol a thalentog.

- **Ffair Gyrfaoedd a Lleoliadau** - 14 Hydref
- **Ffair STEM a Gwyddorau Bywyd** - 28 Hydref
- **Ffair y Gyfraith Caerdydd** - 29 Hydref



“Gwnaethom fwynhau siarad â'r myfyrwr am Circle yn fawr iawn, ynghyd â rhoi gwybod iddynt am ein gwasanaethau a'n partneriaeth bresennol gyda TG y Brifysgol i gyflwyno Prosiect Adnewyddu Rhwydwaith y Brifysgol ar raddfa fawr. Roedd hi'n bleser rhyngweithio trwy ddulliau cyfathrebu gwahanol i rannu ein profiadau – ac roedd hi'n wych gweld cynifer o fyfyrwr yn barod i gyfrannu at drafodaeth.”

Catrin Masling, Partner Busnes Adnoddau Dynol, Circle IT

## Gweithgarwch pwrpasol i gyflogwyr

Bydd ein tîm yn cwrdd â chi i drafod y gweithgarwch gorau ar gyfer eich ymgyrch a'ch anghenion recriwtio, a'ch cefnogi chi i drefnu digwyddiad, gan reoli popeth o archebion myfyrwyr i farchnata cyn eich digwyddiad ac ar y diwrnod.

Rydym yn argymhell:

- Sylw ar gyflogwyr: gweminarau/cyflwyniadau gyda rhwydweithio a sesiwn holi ac atebion fyw
- Sesiynau sgiliau rhyngweithiol
- Gofynnwch unrhyw beth i mi – sesiynau holi ac ateb byw gan recriwtwyr
- Dod o hyd i'ch dyfodol yn.....: Digwyddiadau sy'n benodol i'r sector ac ar thema
- Digwyddiadau a mewnwleidiadau panel cynfyfyrwyr
- Cipolygon / teithiau swyddfa rhithwir
- Cynnwys ar-lein gan gyflogwyr megis blogiau, cynnwys fideo neu gyfraniadau i'n podlediad.

Rydym hefyd yn cynnig ystod eang o gyfleoedd datblygu brand a noddi ac mae gennym bob amser ddiddordeb i drafod unrhyw syniadau arloesol sydd gennych.

I drafod eich anghenion denu a recriwtio ymhellach, cysylltwch â'r:

Tîm Ymgysylltu â Chyflogwyr

[employerservices@caerdydd.ac.uk](mailto:employerservices@caerdydd.ac.uk)

+44 (0)29 2087 4230



“Cynhaliais weithdy sgiliau Arweinyddiaeth a Gwydnwch rhithwir ar y cyd â gwasanaeth gyrfaedd Prifysgol Caerdydd. Roedd y gwasanaeth gyrfaedd mewn cyswllt gwych drwy gydol y trefniadau ar gyfer y digwyddiad ac wrth ei gynnal, ac roedden nhw o gymorth mawr wrth hyrwyddo'r digwyddiad i'w myfyrwyr. Er mai digwyddiad rhithwir oedd hwn, roedd ymgysylltiad y myfyrwyr yn wych, ac felly roedd yn sesiwn ryngweithiol.”

**Mazdak Kamyab, Swyddog Recriwtio, Unlocked Graduates**

## Datblygu eich brand gyda'n myfyrwyr

P'un ai ar y campws neu oddi arno, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnal y brand rydych wedi'i ddatblygu gyda myfyrwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Rydym yn cynnig ystod eang o gyfleodd i ddatblygu brand a noddi, ac rydym bob amser yn awyddus i drafod unrhyw syniadau arloesol a allai fod gennych.

- A oes cynfyfyriwr o Brifysgol Caerdydd yn gweithio i'ch sefydliad? Mae croeso bob tro i gyflogwyr neu gynfyfyrwyr ymuno â'n digwyddiadau panel ynghylch amrywiaeth neu'r diwydiant.
- Rydym ni'n croesawu cyfleoedd i gyd-gyflwyno sesiynau gweithdy a chanolfannau asesu ymarfer gyda chi.
- Rhowch hwb i'ch proffil drwy noddi ffeiriau gyrfaoedd rhithwir, digwyddiadau panel â thema neu hyd yn oed drwy gyfrannu at fodiwlau yn y cwricwlwm.
- Mae clipiau fideo yn ffordd wych o dynnu sylw at sgiliau a rhinweddau rydych yn chwilio amdanynt, a dod â'ch sefydliad yn fyw; wrth i ni barhau i gyflwyno ar-lein, beth am weithio gyda ni i greu cynnwys fideo dilys a chynnig cipolwg i fyfyrwyr a graddedigion ar eich sefydliad, eich pobl a'ch diwylliant.
- Gallwch fentora ein myfyrwyr drwy gymryd rhan yn ein cynllun mentora gyrfaoel newydd.



## Symudedd cymdeithasol ac amrywiaeth

Mae Dyfodol Myfyrwyr wedi ymrwmo i weithio gyda recriwtwyr i wella symudedd cymdeithasol ac amrywiaeth yn y gweithle.

Gall myfyrwyr ag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, neu fyfyrwyr dawnus o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol wynebu rhwystrau a allai eu hatal rhag cystadlu yn y farchnad recriwtio graddedigion. Mae ein gwasanaeth wedi ymrwmo i weithio ar wella sgiliau a chyrchfannau graddedigion y myfyrwyr hyn ac rydym yn croesawu'n arbennig gweithio gyda phartneriaid recriwtio ar hyrwyddo cynwysoldeb yn y gweithle a'ch helpu i sicrhau amrywiaeth yn eich gweithlu.



“*Recriwtiais i ddau intern drwy Brifysgol Caerdydd i weithio ar ddatblygu'r busnes. Roedd cael dau fyfyrwr disglair a brwdfrydig, sy'n dysgu'n gyflym ac yn gallu gweithio o bell ac yn annibynnol, wedi rhoi'r cyfle i mi ddatblygu fy musnes ar adeg amhosib i recriwtio staff yn barhaol. Maent yn denu busnes yn barod ac ni allwn i fod yn hapusach gyda'r canlyniad!*”

**David Lovatt, Gwasanaethau Rhwygo Cyfrinachol Taclus**

## PAM GWEITHIO GYDA PHRIFYSGOL CAERDYDD I RECRIWTIO MYFYRWYR AR LEOLIAD GWAITH?

Mae Prifysgol Caerdydd yn gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr i roi profiad addysgol a phroffesiynol i fyfyrwyr sy'n cyfoethogi eu bywydau, gan eu paratoi ar gyfer byd gwaith, a'u galluogi i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Mae cyflogadwyedd wrth wraidd yr hyn a wnawn, ac rydym yn ymroddedig i greu graddedigion sy'n barod am waith.

Mae gennym ni gynnig lleoliad amrywiol, gan ddylunio ystod o fentrau sy'n galluogi cyflogwyr fel chi i gynnig profiad gwaith ystyrlon i'n myfyrwyr a'n graddedigion ac i adeiladu piblinell dalent. Gall gweithio gyda myfyrwyr roi adnoddau ychwanegol i chi gyflawni ar brosiectau tymor byr, tra hefyd yn rhoi mantais i chi o'r mewnwelediad ffres y gall myfyriwr ei gynnig i'ch gweithlu.

Gall ein myfyrwyr ymuno â chi yn bersonol, o bell neu ar sail gyfunol.

## Pa fathau o leoliadau y gallwn ni eich helpu i'w trefnu?

### Blas ar fyd gwaith

- Cydweithrediad rhwng cyflogwr a myfyriwr sy'n cyfuno 'dysgu a gwneud', gan alluogi myfyrwyr i gael cipolwg ar sefydliad/diwydiant.
- Hyd at 70 awr / 2 wythnos
- Drwy gydol y flwyddyn.
- Di-dâl

### Interniaethau byr

- Eich cyfle i gael prosiect neu ddarn o ymchwil wedi'i gwblhau gan fyfyrwr neu ychwanegu cymorth tymor byr i'ch gweithlu cyn digwyddiad neu gyfnod prysur.
- Hyd at 12 wythnos
- Mehefin a Medi yn bennaf, ond gall fod drwy gydol y flwyddyn
- Cyflog byw + (yn y rhan fwyaf o achosion)

### Interniaethau hirach

- Rhoi hwb i'ch gweithlu presennol gyda myfyriwr neu intern graddedig am hyd at 12 mis. Trefnir y rhain fel lleoliadau rhyngosod neu fel rhan o'r cwricwlwm.
- 5-12 mis

- Mae'r lleoliadau hyn yn rhan o gwrs prifysgol y myfyriwr
- Cyflog byw + (yn y rhan fwyaf o achosion)

### Mentora gyrfaol

- 6 sesiwn dros gyfnod o 4 mis, yn hyblyg i fod yn addas i'r mentor a'r mentora
- Diwedd yr hydref – gwanwyn
- Di-dâl

### Hyder o ran Gyrfa: chwilio am dalent, amrywiaeth a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol

Ariennir Hyder o ran Gyrfa: cefnogi myfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch, drwy HEFCW.

Profiad gwaith wedi'i deilwra a hyblyg yn amrywio o, Cwrdd â'r Gweithiwr Proffesiynol: hyd at dri chyfarfod byr (di-dâl). Mewnwelediad di-dâl: hyd at 70 awr / 10 diwrnod. Lleoliadau â thâl: hyd at 6 wythnos / 30 diwrnod – Bydd Hyder o ran Gyrfa yn ad-dalu cost cyflog y myfyriwr.

Edrychwch ar ein **hastudiaethau achos myfyrwyr** ar dudalen 18 i weld sut mae'r cyfleoedd hyn am leoliad gwaith wedi helpu i lunio taith eu gyrfa.



### Cysylltu â'r tîm

I drafod lleoliadau neu brofiad gwaith, cysylltwch â:

**Tîm Profiad Gwaith**

**[workexperience@caerdydd.ac.uk](mailto:workexperience@caerdydd.ac.uk)**



### Rhagor o wybodaeth

I drafod Hyder o ran Gyrfa ac unrhyw brofiad gwaith y gallwch ei gynnig e-bostiwch:

**[careerconfident@caerdydd.ac.uk](mailto:careerconfident@caerdydd.ac.uk)**

## Rydym yn ei gwneud yn hawdd i chi

Rydym yn cynnig holl wasanaethau asiantaeth recriwtio, ond heb y ffi! Rydym yn gweithredu fel pont rhyngoch chi a myfyrwyr i reoli'r broses o gynnal lleoliadau ar eich rhan. Rydym yn cydweithio â chi i ddylunio'r profiad gwaith a fydd o fudd i'ch sefydliad a gallwn greu rhestr fer ar eich rhan a helpu i gydlynu eich proses ddethol. Fel arall, os oes gan eich sefydliad raglen lleoliadau gwaith sefydledig eisoes, hysbysebwn eich swyddi gwag drwy ein Hysbysfwrdd Swyddi.

Yn olaf, os nad ni yw'r bobl gywir i ddelio â'ch gofynion, byddwn yn eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun yn y Brifysgol a all helpu.



## Sut mae'n gweithio

### Cam 1

Trafodaeth gychwynnol rhyngoch chi a Rheolwr Cyfrif Profiad Gwaith i nodi eich gofynion.

### Cam 2

Creu manylebau rôl.

### Cam 3

Hysbysebu'r rôl i fyfyrwyr a/neu raddedigion diweddar ar ein system recriwtio ar-lein.

### Cam 4

Y Tîm Profiad Gwaith yn creu rhestr fer o'r ceisiadau ac yn ei hanfon atoch cyn i ni eich helpu i gydlynu cyfweiliadau.

### Cam 5

Rydych yn cynnal cyfweiliadau ac yn penodi'r ymgeisydd o'ch dewis.

### Cam 6


Gwaith papur perthnasol wedi'i gwblhau a'i ddychwelyd gan y myfyriwr a'r cyflogwr.

### Cam 7

Mae'r lleoliad gwaith yn dechrau.

Mae eich Rheolwr Cyfrif Profiad Gwaith yn cadw mewn cysylltiad drwy gydol y lleoliad er mwyn sicrhau bod popeth yn mynd rhagddo'n ddiraffferth ac mae wrth law i gynorthwyo gydag unrhyw ymholiadau.

# LLINELL AMSER LLEOLIAD GWAITH – GWNEUD I'CH CYFLE PROFIAD GWAITH GYD-FYND Â'R CALENDR ACADEMAIDD



Mae lleoliadau byr yn gofyn am gyfnod arweiniol o tua 2-3 wythnos. Mae angen mwy o amser i drefnu lleoliadau hirach, cwricwlaidd, er mwyn sicrhau y bydd y deilliannau dysgu sy'n dwyn credyd yn cael eu bodloni gan y rôl rydych yn bwriadu ei chynnig cyn y gall yr Ysgol Academaidd ei hyrwyddo i'w myfyrrwyr.

- Mae semester yr hydref yn dechrau.
- Lleoliadau Blwyddyn Rhyngosod/Blynyddoedd Lleoliad Proffesiynol/Lleoliadau Blwyddyn mewn Diwydiant** (gan ddechrau rhwng mis Gorffennaf a mis Medi, sy'n para rhwng 9 a 12 mis) – yn gyff edinol rhwng blwyddyn astudio olaf ond un a blwyddyn olaf y myfyrrwyr. Bydd myfyrrwyr yn dechrau chwilio am leoliad tua'r Nadolig (er y gall y recriwtwyr graddedigion mwyaf ddechrau hysbysebu'n gynt na hyn) a byddant yn gobeithio sicrhau rôl erbyn y Pasg.
- Cynlluniau blas ar fyd gwaith**, gyda chefnogaeth y Tîm Dyfodol Myfyrrwyr (rhan-amser yn ystod y tymor, ond gall fod yn llawn amser yn ystod toriadau academaidd). O'r drafodaeth gychwynnol gyda chyflogwr, gall hysbysebu, recriwtio a dod o hyd i leoli i fyfyrwyr fod mor gyflym â 3 wythnos os oes angen.
- Mentora Gyrfaol** - 6 sesiwn dros gyfnod o 4 mis, yn hyblyg i fod yn addas i fentor a mentora, heb dâl.
- Hyder o ran Gyrfa**, profiad gwaith hyblyg wedi'i deilwra, yn amrywio o gyfarfod byr, hyd at 70 awr o fewnwelediadau di-dâl i leoliadau cyflogedig 30 diwrnod.
- Cynhelir cyfweiliadau ar gyfer **Lleoliadau Integredig Ysgol Busnes Caerdydd**. Byddwn yn estyn allan i gyflogwyr o fis Ebrill ymlaen, gyda'r nod o gwblhau rolau a disgrifiadau swydd erbyn mis Awst.
- Toriad y Nadolig (canol Rhagfyr i ganol mis Ionawr).
- Lleoliadau Integredig Ysgol Busnes Caerdydd** (llawn amser, a gymerwyd yn ystod ail flwyddyn y myfyrrwyr). Ar y rhaglen unigryw ac arloesol hon, mae myfyrrwyr BSc Rheoli Busnes yn ymuno â'ch sefydliad i gwblhau cyfnod strwythuredig o brofiad gwaith. Mae'r lleoliad hwn yn cyfrannu at radd myfyriwr. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: [carbsplacements@caerdydd.ac.uk](mailto:carbsplacements@caerdydd.ac.uk)
- Cyfnod arholiadau (canol Ionawr i ddechrau mis Chwefror). Mae'n annhebygol y bydd myfyrrwyr ar gael i gwblhau profiad gwaith.
- Mae semester y gwanwyn yn dechrau.
- Dechreuir **hyrwyddo Interniaethau'r Haf**. SY'n aml, mae'n well gan fyfyrwyr sicrhau eu hinterniaeth cyn i'w harholiadau ddechrau.
- Gwyliau'r Pasg.
- Cyfnod arholiadau (canol Mai i ganol Mehefin) – mae myfyrrwyr yn annhebygol o allu cwblhau profiad gwaith.
- Cynhelir **Prosiectau Byw ar Lefel Meistr**, a drefnir gan Ysgolion Academaidd ar gyfer myfyrrwyr mewn disgyblaethau penodol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: [workexperience@caerdydd.ac.uk](mailto:workexperience@caerdydd.ac.uk)
- Cynhelir **Interniaethau Haf â Thâl** (sy'n para hyd at 12 wythnos) ar gyfer myfyrrwyr a graddedigion diweddar. Mae myfyrrwyr yn aml yn gwneud gwaith ymchwil neu'n cwblhau prosiect ar ran y cyflogwr sy'n eu derbyn. Mae Interniaethau'r Haf yn gam delfrydol tuag at gyflogaeth i raddedigion.

## BLAS AR FYD GWAITH

1-2 wythnos yn llawn amser neu 35-70 awr, wedi'u trefnu'n hyblyg o amgylch amserlenni'r myfyrwyr a'ch argaeledd – gallwch recriwtio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn academaidd. Mae'n hanfodol eich bod yn dyrannu goruchwyliwr i'r myfyriwr/myfyrwyr sydd â rhywfaint o arbenigedd yn gysylltiedig â'r gwaith y bydd y myfyriwr/myfyrwyr yn ei wneud. Mae cynlluniau blas ar fyd waith yn arbennig o ddefnyddiol i fyfyrwyr sydd am gael profiad gwaith, ond hefyd yn eich galluogi chi i ddod o hyd i dalent ac adeiladu eich piblinell recriwtio.

### Enghreifftiau o gyfnodau blas ar fyd gwaith blaenorol:

- Cynllun blas ar fyd gwaith ym maes newyddiaduraeth – creu cynnwys a'r cyfryngau cymdeithasol
- Cynllun blas ar fyd gwaith Cynghorydd Cynaliadwyedd
- Cynllun blas ar fyd gwaith mewn ymgynghoriaeth treftadaeth
- Cynllun blas ar fyd gwaith Technegydd Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol

“ Mwynheais gael y cyfle i fod yn gyfrifol am greu cynnwys, nad oeddwn erioed wedi'i wneud o'r blaen. Yn ogystal, roedd dod i weithio i elusen fach leol yn golygu y gallwn helpu i godi ymwybyddiaeth o glefyd prin. Roedd arweinydd yr elusen, Alan Thomas, yn gymwynasgar ac yn gyfeillgar ac rwy'n teimlo fy mod wedi magu llawer o hyder a gwybodaeth o gwblhau'r cynllun blas ar fyd gwaith hwn. ”

**Imogen Bland, BSc Seicoleg – Mewnwelediad Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfryngau Cymdeithasol, Ataxia and Me**

“ Rydym wedi cael amser mor wych yn gweithio gydag Erykah, Zainab a Dominic – maent i gyd wedi bod yn glod llwyr i Brifysgol Caerdydd ac yn gaffaeliad enfawr i dîm Iris ar gyfer yr ŵyl eleni. ”

**Adborth Gan Gyflogwr – Gŵyl Ffilm LGBT+ Gwobr Iris**




**Enw:** Elena Sargent **Cwrs:** BSc Economeg


### Beth yw enw eich lleoliad a beth mae'n rhaid ichi ei wneud?


Roeddwn i'n gynorthwy-ydd cymorth busnes, a chefais y dasg o ddefnyddio Excel i drefnu costau uniongyrchol, costau llafur a lleihau faint o brosiectau cyhoeddi sydd â chostau annisgwyl yn ogystal â hefyd i gynnal dadansoddiad data i asesu cynhyrchiant ac ymchwilio i ddefnyddioldeb magnetau darllen. Ar ben hynny, gwnes i optimeiddio'r fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo ffioedd PayPal.

### Beth wnaeth eich denu i wneud cais ar gyfer yr interniaeth?

Roeddwn i eisiau cael rhagor o wybodaeth am y maes cymorth busnes a sut mae busnes bach yn gweithio o ran prisio gwasanaethau, cydlynio nifer o weithgareddau a chydweithio, yn ogystal ag ehangu fy ngwybodaeth fy hun am ymchwil i'r farchnad a dysgu sgiliau newydd. Roeddwn i eisiau cael profiad o sector gwahanol i'r rhai y gwnes i weithio ynddynt o'r blaen a gallu defnyddio fy mhrofiad o fy ngradd economeg. Cefais fy nenu gan fod swydd cynorthwy-ydd

 Rowanvale Books

 Interniaeth o bell

 Cynorthwydd  
Cymorth Busnes

 rowanvalebooks.com

busnes yn gam da tuag at yrfa mewn dadansoddi busnes, yr oeddwn am ei hystyried.

### Gan eich bod wedi gorfod gwneud rhan o'r lleoliad hwn o bell, sut ydych chi wedi ymdopi â gweithio gartref? A oes gennych chi unrhyw gyngor ar gyfer gwneud lleoliad o bell?

Cefais fy arwain gan Cat Charlton, yn Rowanvale Books. Gwnaeth roi cyngor gwych i mi a chysylltu â mi yn aml iawn i sicrhau fy mod i'n deall fy ngwaith ac yn cael digon o help ond hefyd sicrhau mai fy ngwaith prifysgol oedd fy mlaenoriaeth a bod fy lles yn dda.

Roeddwn i'n teimlo bod popeth yn drefnus iawn a fy mod i wedi cael amrywiaeth dda o dasgau i wella fy sgiliau a datblygu rhai newydd. Gwnes i sicrhau bod gennyf amgylchedd tawel a threfnus a fy mod i'n neilltuo oriau penodol yn yr wythnos i wneud y tasgau, a oedd yn hawdd ei wneud gan fod y cwmni'n hyblyg iawn o ran oriau gwaith. Gwnes i sicrhau fy mod i'n drefnus o ran aseiniadau prifysgol a gwaith astudio ac o ran fy nhasgau gwaith, ond hefyd sicrhau fy mod i'n

gofyn cwestiynau er mwyn sicrhau bod fy ngwaith o safon dda.

### Disgrifiwch eich profiad o weithio gyda'r sefydliad

Roedd yn brofiad hynod gadarnhaol lle cefais lawer o gefnogaeth a chymorth, ac roedd fy nghydweithwyr i gyd yn gyfeillgar ac yn hawdd eu cyrraedd. Doeddwn i byth wedi fy niflasu gan fod Cat yn gwneud yn siŵr fy mod i'n cael fy herio ac y gallwn ddatblygu sgiliau drwy amrywiaeth o dasgau. Roeddwn i'n teimlo bod popeth wedi'i drefnu'n dda ac y gallwn ofyn cwestiynau am unrhyw beth. Ar ben hynny, roeddwn i'n teimlo fy mod i'n cael fy annog i fod yn rhagweithiol a bod cefnogaeth fawr i bopeth roeddwn i'n ei wneud. Roeddwn i'n wir yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd o ran fy oriau gwaith, yn enwedig yn ystod tymor yr arholiadau pan oedd gennyf gyfrifoldebau ychwanegol.

### Sut y gwnaethoch chi elwa o'r interniaeth?

Rwyf wedi dysgu i ofyn mwy o gwestiynau a chwestiynau gwell a chyfathrebu'n effeithiol â chydweithwyr. Ar ben hynny, dysgais sut i fod yn fwy annibynnol a gweithio'n well o bell. Cefais ragor o brofiad o ddefnyddio Excel a dadansoddi gwahanol fathau o ddata. Mae fy ymwybyddiaeth fasnachol wedi cynyddu'n fawr gan fod gennyf ddealltwriaeth well o sut mae busnesau bach a'r diwydiant cyhoeddi'n gweithio. Roeddwn i'n gallu bod yn fwy rhagweithiol a chynnig fy atebion fy hun.

### A fydddech chi'n argymhell cwblhau Interniaeth drwy adran Tîm Profiad Gwaith?

Byddwn yn argymhell gwneud profiad gwaith drwy dîm Profiad Gwaith oherwydd y gefnogaeth a gefais ar gyfer fy newisiadau gyrrfa, sut i ysgrifennu fy CV a llythyrau esboniadol a sut i chwilio am interniaethau. Rwyf bob amser yn gallu cael

**“Mae fy ymwybyddiaeth fasnachol wedi cynyddu'n fawr gan fod gennyf ddealltwriaeth well o sut mae busnesau bach a'r diwydiant cyhoeddi'n gweithio.”**

apwyntiadau gyda chynghorwyr gyrfaoedd ac rwyf bob amser yn cael ymatebion prydlon i'm negeseuon ebost. Rwyf hefyd yn gwerthfawrogi'r profiadau gwaith a awgrymir a anfonir ataf drwy ebyst.

### A fydddech chi'n argymhell cwblhau lleoliad o bell i fyfyrwyr eraill?

Byddwn i'n argymhell cwblhau lleoliad o bell gan ei fod yn ei gwneud hi'n haws cydbwysu astudiaethau a gwaith ar yr un pryd gan nad oes angen teithio. Mae'r costau'n is, ac mae'n haws ac yn fwy hyblyg o ran cydbwysu'r broses â chyfrifoldebau eraill. Mae hefyd wedi caniatáu i mi weithio o Gaerdydd ac o gartref fy nheulu pan oedd angen i mi fynd adref.



 **Rowanvale**  
Books



## INTERNIAETHAU BYR

Cyfle i'n myfyrwyr a'n graddedigion ddefnyddio'r sgiliau a'r wybodaeth a ddatblygwyd yn ystod eu hastudiaethau academaidd a'u rhoi ar waith mewn prosiect neu rôl benodol o fewn eich sefydliad. Mae interniaeth yn ddelfrydol os oes gennych ddarn o waith y mae angen ei gyflawni mewn cyfnod byr. Mae'r interniaethau hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gyflogadwyedd myfyrwyr ac yn aml dyma'r man cychwyn ar gyfer perthynas waith barhaus iddynt gyda'r sefydliadau sy'n eu derbyn. Cyllid cyfyngedig sydd ar gael weithiau ar gyfer busnesau bach a chanolig sy'n bodloni meini prawf penodol.

“ Mae fy mhrofiad o weithio i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi newid fy mywyd. Gweithiais gyda myrdd o wahanol dimau, sydd wedi cynnwys y ganolfan ODP, y tîm cysoni o fewn Dulliau a thîm adolygu BASE. Heb os, mae'r interniaeth hon wedi rhagori ar fy holl ddisgwyliadau, mae wedi rhoi'r sgiliau, y cysylltiadau a'r profiad sydd wedi gwneud i mi deimlo'n hyderus ac yn ddigon cymwys i wneud cais am Lwybr Carlam y Gwasanaeth Sifil eleni.”

**Lydia Jones, BSc Cymdeithaseg, Datblygu'r Ddarpariaeth Weithredol Cynnig Proffesiwn, SYG**

### Enghreifftiau o interniaethau blaenorol:

- Cynorthwy-ydd Cyfathrebu
- Gweinyddydd Adnoddau Dynol
- Cymorth Gweithrediadau'r Wyl
- Peiriannydd Meddalwedd
- Technologydd Pensaerniaeth



**Enw:** Victoria Merker

**Cwrs:** BSc Rheoli Busnes (Lleoliad Gwaith Integredig/  
Blwyddyn ar Leoliad Gwaith Proffesiynol)

### Sut clywoch chi am y cyfle hwn i wneud interniaeth a pham y gwnaethoch chi benderfynu gwneud cais?

Gwelais yr interniaeth ar Hysbysfwrdd Swyddi a Chyfleoedd Prifysgol Caerdydd. Penderfynais wneud cais gan fy mod bob amser wedi bod â diddordeb mewn rheoli yn y GIG, ac roeddwn yn ei weld fel cyfle â thâl i ddatblygu fy niddordeb ymhellach. Roedd yn gynllun peilot, felly roeddwn i'n meddwl bod gen i gyfle i lunio'r interniaeth i gyd-fynd â'm nodau. Roeddwn i eisio gwella fy CV, fy sgiliau rheoli prosiect a deall beth oeddwn wedi'i ddysgu mewn darlithoedd drwy brofiad ymarferol, yn enwedig gyda COVID yn cael y prif sylw yn fy mlwyddyn gyntaf.

### Beth yw enw eich lleoliad a beth mae'n rhaid ichi ei wneud?

Interniaeth Haf Addysg a Gwella Iechyd Cymru. Ar y dechrau, roedd y prosiect yn cynnwys treulio pythefnos dros y Pasg yn cynllunio'r interniaeth. Ni fydd hyn yn parhau gan mai ni oedd y grŵp peilot. Yn dilyn hyn, roedd yr interniaeth â thâl yn cynnwys cael detholiad mawr o brosiectau cyn

mynd ati i ddewis y 3 oedd orau gennych yn y pen draw. Yn ystod y lleoliad 6 wythnos, rydych yn ymgymryd â'ch prosiect dewisol yn eich tîm. I mi, roedd hyn yn golygu fy mod yn gweithio gyda thîm y rhaglen iechyd meddwl ac yn cwblhau prosiect oedd yn cyd-fynd ag un o gerrig milltir y Cynllun Cyflwyno Law yn Llaw at Iechyd Meddwl. Cefais 6 wythnos i geisio mapio'r llwybrau iechyd meddwl gofal sylfaenol ledled Cymru, drwy amrywiaeth o ddulliau, cyn cynnig ystod o awgrymiadau o ymchwil sylfaenol ac eilaidd.

### Ydych chi o'r farn eich bod wedi dysgu sgiliau gwerthfawr y gellir eu trosglwyddo i gyfleoedd gyrfaol yn y dyfodol?

Yn fwyaf amlwg, fe wnaeth fy sgiliau rheoli prosiect wella gan fod yn rhaid i mi ymgymryd â phrosiect gyda lefel uchel o weithio ar fy mhen fy hun. Cafodd llawer o sgiliau eraill eu hennill a'u gwella megis: cyfathrebu, proffesiynoldeb, cydweithio, ymwybyddiaeth busnes, menter a threfnu. Ar ben hynny, rwy'n ennill tystysgrifau ar gyfer ymgymryd â chysiau a dosbarthiadau meistr fel IQT Efydd (gwella ansawdd),



Health Education and Improvement Wales



Interniaeth Haf



Interniaeth Ymchwil Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol



heiw.nhs.wales

arweinyddiaeth dosturiol, codi a chario ac ati.

### Disgrifiwch eich profiad o weithio yn y sefydliad.

Yn ystod fy mhrofiad, gweithiais o dan y tîm Trawsnewid Nyrsio yn adran fach iawn y Rhaglen Iechyd Meddwl. Roedd gen i reolwr (a oedd hefyd yn fentor i mi) ac roeddem yn siarad bob dydd ond yn cael sesiwn fentora bwrpasol unwaith yr wythnos. Roedd hyn yn fuddiol iawn ac roedd bod yn rhan o dîm, yn hytrach na bod ar wahân, yn golygu bod y prosiect yn rhedeg yn fwy llyfn ac roedd yr interniaeth yn fwy gwerthfawr.

### Beth oedd yr agweddau mwyaf cadarnhaol ar eich interniaeth?

Fel y soniwyd uchod, yr agwedd fwyaf cadarnhaol oedd y mentora gan ei fod wedi fy helpu i gael y gorau o'r interniaeth a dysgu gan fy mentor sydd wedi parhau i gynnig cymorth yn y dyfodol. Ar ben hynny, roedd cynifer o gyfleoedd i rwydweithio, i gymryd rhan yn y cwmni ac i siarad â staff gweithredol/cyflwyno iddynt. Maent wedi cynnig interniaeth 1 flwyddyn ddilynol a chadw mewn cysylltiad ag unrhyw gyfleoedd eraill sy'n codi. Rwyf hefyd wedi cael gwarant o gyfweiliad ar gyfer eu cynllun i raddedigion.

### Oes gennych chi awgrymiadau ynghylch sut y gellid bod wedi gwella eich profiad?

Nid oes gennyf lawer o awgrymiadau gan fod popeth wedi cael ei gynnal yn dda a bydd ond yn gwella'r flwyddyn nesaf, nawr mae'r peilot wedi'i gwblhau. Byddwn yn argymhell ystyried pa mor ymarferol yw rhai o'r prosiectau, ac os ydynt yn fawr, rhoi pwyslais ar gwblhau rhywfaint ohonynt yn unig. Rwyf hefyd yn meddwl, mewn adegau heb covid, y byddai'n braf cwrdd â mwy o bobl wyneb yn wyneb a chael sgwrsiau go iawn gyda nhw, er bod bore coffi a -lein yn ddefnyddiol.



**Mae'r interniaeth wedi helpu fy sgiliau cyflogadwyedd gryn dipyn ac wedi gwella fy CV sy'n hynod bwysig wrth geisio dod o hyd i swydd neu leoliad gwaith.**

### Sut daethoch chi o hyd i leoliad eich interniaeth?

Cawsom gyfle i weithio mewn dull hybrid, o bell rai dyddiau ac wyneb yn wyneb ar eraill. Roedd bod yn y swyddfa yn help mawr gyda chymhelliant a themlo fel rhan o'r cwmni, ond os nad oeddech yn gyrru roedd y lleoliad yn anodd iawn i'w gyrraedd felly y tro nesaf gellid ymchwilio i drafndiaeth.

### Fyddech chi'n argymhell myfyrwyr eraill i gwblhau interniaeth?

Byddwn. Mae'r interniaeth wedi helpu fy sgiliau cyflogadwyedd gryn dipyn ac wedi gwella fy CV sy'n hynod bwysig wrth geisio dod o hyd i swydd neu leoliad gwaith. Roedd hefyd yn brofiad plaserus ac rydw i wedi gwneud nifer o ffrindiau da, felly rwy'n ei argymhell yn bendant.

### Oes gennych chi awgrymiadau i fyfyrwyr sy'n ystyried cyflwyno cais neu ddechrau interniaeth?

Byddwn yn awgrymu rhoi cynnig ar y llwybrau cyflogadwyedd Dyfodol Myfyrwyr ar-lein gan eu bod yn ddefnyddiol iawn wrth ysgrifennu fy CV a'm llythyr esboniadol. Byddwn hefyd yn awgrymu'n gryf ymchwilio i'r cwmni, eu gwerthoedd ac ymarfer cael cyfweiliad ymlaen llaw er mwyn paratoi eich hun.



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Addysg a Gwella Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)

## INTERNIAETHAU HIRACH (5-12 MIS)

Mae myfyrwyr yn gweithio amser llawn i'r sefydliad, fel arfer am semester neu flwyddyn gyfan, a bydd eu gwaith yn cyfrif tuag at ganlyniad eu gradd. Mae myfyrwyr bob amser yn dysgu cymaint o flwyddyn gyfan mewn cyflogaeth ac rydych yn cael y fantais ddeuol o adeiladu eich piblinell talent a chael cyflogai ychwanegol am y flwyddyn. Mae interniaethau blwyddyn o hyd yn rhan hanfodol o lawer o strategaethau denu talent cyflogwyr graddedigion mawr a gallant chwarae rhan ddefnyddiol ar gyfer unrhyw fusnes sy'n tyfu. Os nad ydych yn siŵr ble i ddechrau arni, gallwn helpu

### Enghreifftiau o interniaethau blaenorol:

- Lleoliad arloesedd arbenigol i israddedigion
- Lleoliad rheolwr treftadaeth cynorthwyol
- Lleoliad ymgynghorydd data iau
- Lleoliad diwydiannol ymchwil a datblygu biofferyllol ac oncoleg i israddedigion
- Lleoliad hyfforddai mewn oriel
- Lleoliadau integredig Ysgol Busnes Caerdydd

“ Mae ein myfyriwr ar leoliad o Brifysgol Caerdydd wedi bod yn rhan annatod o'n tîm dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae wedi dangos ymroddiad, proffesiynoldeb a pharodrwydd i ddysgu a datblygu ei hun. Mae wedi cael effaith fawr yn ein proses a'n prosiectau drwy gydol y flwyddyn, byddai'n braf petai'n gallu aros yn hirach! ”

Lucy Elliott, Danone



-  Simply Do Ideas
-  Interniaeth
-  Simply Do Ideas Peirianeg Meddalwedd
-  simplydo.co.uk

**Enw:** Paige Lowe **Cwrs:** BSc Cyfrifiadureg (Blwyddyn mewn Diwydiant)

### Beth yw enw eich interniaeth a beth mae'n ei gynnwys?

Interniaeth Peirianeg Meddalwedd Simply Do Ideas – Ers dechrau'r lleoliad gwaith, rwyf wedi bod yn rhan o nifer o brosiectau o wahanol feintiau. Mae'r prosiectau hyn yn amrywio o drwsio gwallau yng nghôd y rhaglen ei hun, i ddiweddarau'r rhyngwyneb blaen i roi profiad gwell i ddefnyddwyr. Wrth weithio ar y rhyngwyneb blaen, rwyf wedi gorfod cymryd adborth gan eraill a gwneud penderfyniadau ynghylch dyluniad, ac rwyf wedi bod yn ceisio ychwanegu swyddogaethau amrywiol newydd i gleientiaid y platfform. Rwyf hefyd wedi cael y cyfle i ddysgu mwy am sectorau gwahanol o'r cwmni, gan gynnwys y farchnad gyfredol a chleientiaid a sut maen nhw'n bwriadu tyfu.

### Beth wnaeth eich denu at yr interniaeth?

Cefais fy nenu at gwblhau interniaeth gan fy mod yn teimlo y byddai'n fy mharatoi yn y ffordd orau ar gyfer fy ngyrfa ar ôl cwblhau fy ngradd ac y byddai'n gwella fy sgiliau technegol a'm sgiliau

proffesiynol. Roeddwn i hefyd eisiau treulio cyfnod yn y diwydiant i benderfynu llwybrau gyrfa posibl yn y dyfodol, oherwydd bod fy ngradd yn ymdrin â nifer o lwybrau gyrfa amrywiol. Gwnaeth Cynllun Interniaeth Santander, ar y cyd â'r cymorth a ddarparwyd drwy'r Brifysgol, gynnig y platfform delfrydol i mi estyn allan i sefydliadau a dod o hyd i gyfleoedd posibl am leoliadau gwaith. Ar ôl cwblhau'r interniaeth, rwy'n gobeithio y byddaf wedi datblygu fy sgiliau rhaglennu yn fawr yn ogystal ag ennill dealltwriaeth ddyfnach o rai o'r technolegau sy'n dod i'r amlwg. Yna gellir cymhwyso'r wybodaeth hon wrth i mi orffen fy astudiaethau, a gall fy arwain tuag at lwybr gyrfa sy'n gweddu orau i'm diddordebau.

### A fydddech chi'n argymhell cwblhau interniaeth drwy adran Tîm Profiad Gwaith?

Byddwn yn bendant yn argymhell y cynllun i eraill. Mae gweithio i BBACh wedi rhoi'r cyfle i mi deimlo fel aelod gwerthfawr o'r tîm. Rwyf wedi gweld fy ngwaith yn cael effaith uniongyrchol ar y platfform, ac wedi cael llawer o foddhad o weld

fy ngwaith yn cael ei ddefnyddio. Mae'r lefel uchel o ymddiriedaeth/cyfrifoldeb i gwblhau tasgau'n gywir yn werth chweil, ac oherwydd bod y cwmni'n tyfu'n gyflym, rwy'n gallu datblygu fy sgiliau'n gyflym am fy mod i bob amser yn gweithio ar, neu'n dysgu, pethau newydd. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod yr interniaeth yn ddiddorol, oherwydd fy mod i'n gyfrifol am dasgau newydd o wythnos i wythnos.

### Disgrifiwch eich profiad o weithio yn Simply Do Ideas

Oherwydd maint llai y tîm, cefais gyfle i ennill gwybodaeth ar draws ystod o sectorau cwmnïau. Rwyf wedi gweithio gydag aelodau eraill y tîm i ddysgu am gynnyrch, marchnadoedd ac ymchwil, ond byddai cwmni mwy wedi cael adrannau ar wahân ar gyfer hyn, sy'n golygu efallai na fyddwn wedi dod i gysylltiad ag unrhyw beth heblaw datblygu meddalwedd. Drwy weithio mewn sawl maes o'r busnes, rwyf wedi gallu gweld meysydd eraill sydd o ddiddordeb i mi ac rwy'n ymwybodol bod hyn yn rhywbeth y gallwn fod am ei ddilyn. At hynny, mae maint llai y tîm yn golygu bod pawb bob amser yn weddol ymwybodol o'r hyn y mae eraill yn gweithio arno/tuag ato felly gallant gynnig cefnogaeth ar bob adeg. Mae hefyd yn golygu ei fod yn haws cyfathrebu, oherwydd bod pawb yn adnabod ei gilydd, gan arwain at amgylchedd gwaith hynod gyfeillgar a chefnogol.

### Sut gwnaethoch chi elwa o'r interniaeth?

Ers dechrau'r interniaeth, rwyf eisoes wedi datblygu fy sgiliau datblygu'r we, yn enwedig o ran systemau cefndirol oherwydd nid oedd unrhyw brofiad blaenorol gennyf o weithio gyda rhyngwynebau rhaglennu cymwysiadau. Rwyf hefyd wedi ymgyfarwyddo â GIT sef safon y

diwydiant ar gyfer rheoli fersiynau, felly mae'n hanfodol fy mod i'n gyfarwydd â'r dechnoleg hon. Rwyf hefyd wedi gweithio gyda Slack a Trello i reoli fy llif gwaith a chyfathrebu ag aelodau eraill o'r tîm. Rwyf hefyd wedi datblygu fy sgiliau meddal yn sgil gweithio mewn amgylchedd proffesiynol. O safbwynt personol, mae fy ngallu i siarad yn gyfforddus am yr hyn rwyf wedi bod yn gweithio arno a'i esbonio'n effeithiol i eraill wedi datblygu'n fawr. Dyma sgil sydd wedi datblygu drwy gael y cyfle i drafod fy mhrosiectau wythnosol gyda'r tîm mewn cyfarfodydd adolygu. Rwyf hefyd wedi dysgu pwysigrwydd dyfalbarhau a datrys problemau wrth geisio cwblhau tasg sy'n gwbl newydd ac sy'n heriol i ddechrau.

**“Mae gweithio i BBACh wedi rhoi cyfle i mi deimlo fel aelod gwerthfawr o'r tîm. Oherwydd bod y cwmni'n tyfu'n gyflym, rwy'n gallu datblygu fy sgiliau'n gyflym am fy mod i bob amser yn gweithio ar, neu'n dysgu, pethau newydd.”**





“Mae'r rhaglen fentora wedi'i chynllunio'n dda ac mae'n rhoi cyfle gwych i fyfyrwyr gysylltu â phroffesiynau diwydiannol. Mae wedi fy helpu i ddatblygu fy sgiliau rhyngbersonol a mentora fy hun fel gweithiwr proffesiynol.”

Hannah Little, Mot MacDonald

## MENTORA GYRFAOL

Mae mentora wedi profi'n ffordd boblogaidd iawn o roi hwb i'ch brand a gweithio gyda myfyrwyr os a) mae profiad gwaith ar y safle yn broblem i'ch sefydliad o hyd, b) eich bod am roi rhai cyfleoedd datblygu cyfrifoldeb/gyrfa i'ch staff.

Mae staff o'ch sefydliad, boed yn fyfyrwr graddedig a recriwtiwyd yn ddiweddar neu'n weithwyr proffesiynol mwy profiadol, yn defnyddio budd eu gwybodaeth a'u harbenigedd i weithio gyda myfyrwyr ar sail un-i-un mewn swydd fentora. Rydym yn paru mentoriaid a myfyrwyr ac yn rhoi fframwaith i chi ar gyfer eich sgysiau.

Wrth gyfarfod am o leiaf chwe sesiwn, mae myfyrwyr yn elwa ar drafod eu cynlluniau gyrfa gyda rhywun yn eu maes dewisol neu gyda rhywun a astudiodd radd debyg iddynt.

Ar ôl hynny, chi sydd i benderfynu – gallwch barhau â'r berthynas fentora neu, hyd yn oed yn well, ar yr adeg gywir, gallwch wahodd y myfyriwr i wneud lleoliad gwaith gyda'ch sefydliad.

**Mae mentoriaid gyrfaol blaenorol wedi dod o sefydliadau gan gynnwys:**

- Y GIG
- Mot MacDonald
- Grŵp Admiral
- Circle IT
- Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol



**Enw:** Louise Stack

**Cwrs:** MBIomed yn y Gwyddorau Biofeddygol

### Beth oedd y cynllun mentora gyrfaol yn ei gynnwys?

Roedd y broses ymgeisio yn cynnwys llenwi ffurflen i nodi ymhellion ar gyfer ymuno â'r cynllun, meysydd o ddiddordeb ac arwydd o ba ddiwydiant y byddai'n well gennych eich mentor ddod. Yna, ar ôl neilltuo mentor, trefnwyd amser a dyddiad ar gyfer cyfarfodydd. O ran paratoi ar gyfer pob cyfarfod, darparodd y cynllun bwnc dynodedig i'w drafod bob sesiwn. Yna cafwyd rhai ymarferion paratoi i'w cwblhau ar Taith Eich Gyrfa er mwyn rhoi ymdeimlad cyff edinol i chi o'r hyn y mae'r pwnc hwn yn ei gynnwys cyn y sesiwn. Ar ôl pob sesiwn, cwblhawyd paragraff myfyriol byr ar sut aeth y sesiwn a phethau a ddysgwyd ohono.

### Beth wnaeth eich denu i wneud cais ar gyfer y cynllun mentora gyrfaol?

Cefais fy nenu at y cynllun fel y gallwn gael arweiniad ynghylch pa opsiynau sydd ar gael i mi ar ôl graddio, y ffordd orau o wneud cais

### Ydych chi am ysbrydoli a chynghori pobl ifanc sydd â diddordeb yn eich maes gwaith?

### Ydych chi am ddatblygu eich sgiliau hyfforddi ac arwain?

Rydym yn chwilio am weithwyr proffesiynol i gefnogi ein myfyrwyr yn eu taith gyrfa drwy ein rhaglen fentora ar-lein. Mae ein rhaglen yn cynnwys:

- Sesiynau strwythuredig
- Canllawiau ac awgrymiadau cynnwys
- Cymorth parhaus
- Hyblygrwydd i weddu i fentor a mentora

am y rhain, a sut i hoelio sylw mewn ceisiadau am swyddi. Roeddwn hefyd am ddatblygu fy rhwydwaith a chael gwybodaeth am fy maes diddordeb gan rywun sydd eisoes yn rhan ohono. Yn benodol, roeddwn am gael cyngor ynghylch gwneud PhD gan rywun a wnaeth un ond nad oedd o reidrwydd yn gweithio yn y byd academiaidd.

### Disgrifiwch eich profiad o weithio gyda'r mentor.

Roedd yn hawdd iawn cyd-dynnu ag Alan, ac roeddwn i'n teimlo y gallwn ofyn unrhyw gwestiynau sy'n gysylltiedig â gyrfa a oedd gennyf. Er nad oedd fy mentor yn yr un diwydiant â'm diddordeb, roedd y wybodaeth a'r sgiliau a oedd ganddo yn drosglwyddadwy iawn o hyd ac mewn rhai ffy dd, roedd yn fwy buddiol cael persbectif arall. Roedd y pynciau a awgrymwyd gan y cynllun yn ddefnyddiol iawn gan eu bod yn rhoi strwythur i ni i'n sgysiau. Roedd hefyd yn golygu bod Alan yn gallu paratoi ymlaen llaw ac

felly wedi dod o hyd i adnoddau defnyddiol iawn i ni eu defnyddio yn ystod y sesiynau ac ar eu hôl. Yn gyff edinol, roedd gweithio gyda fy mentor yn berthnasol iawn ac yn ddefnyddiol wrth baratoi ar gyfer fy ngyrfa yn y dyfodol.

### Sut y gwnaethoch chi elwa o'r mentora?

Enillais amrywiaeth o sgiliau o'm mentora, megis cyfathrebu, technegau cyfweld, ffy dd effeithiol o ymchwilio i gwmnïau o ddiddordeb, sut i feithrin gwydnwch ac ymwybyddiaeth fasnachol. Datblygais hefyd fy sgiliau rheoli amser a chymryd nodiadau drwy ein cyfarfodydd, a gwella sgiliau myfyrio cyn y sesiynau er mwyn i mi allu meddwl am gwestiynau effeithiol i'w gofyn, ac ar ôl sesiynau pan roeddwn yn cadarnhau'r pynciau a drafodwyd.

### A fydddech yn argymhell cymryd rhan yn y cynllun mentora gyrfaol drwy dîm Profiad Gwaith?

Byddwn yn bendant yn argymhell cymryd rhan yn y cynllun mentora gyrfaol os ydych yn chwilfrydig/yn ansicr o'r cyfleoedd sydd ar gael i chi ar ôl graddio, neu os hoffech gael persbectif ar sut aeth pobl i mewn i ddiwydiannau sydd o ddiddordeb i chi. Roedd y broses gyfan yn glir ac yn hawdd ei llywio, ac roedd y tîm profiad gwaith bob amser ar gael i ateb unrhyw gwestiynau oedd gennyf.

### Sut brofiad yw gweithio gartref i chi? Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer cwblhau cynllun yn rhithwir?

Mwynheais gwblhau'r cynllun yn rhithwir. Roeddwn yn haws ei ffitio i m hamserlen, a chanfu fod defnyddio llwyfannau ar-lein yn ystod ein sesiynau yn fuddiol iawn. Roedd y cynllun hefyd yn fy helpu i gynnal cydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith gan fy mod yn gwybod bod diwrnodau/nosweithiau penodol roedd yn rhaid i mi newid

o wneud gwaith prifysgol fel y gallwn ymchwilio i bynciau sy'n ymwneud â gyrfa. Pe na bawn wedi cwblhau'r cynllun, efallai na fyddwn wedi cymryd yr amser i ystyried dewisiadau gyrfa yn y dyfodol, ac felly byddwn i wedi drysu llawer mwy ynghylch beth fydd fy nghamau nesaf ar ôl graddio.

### Fydddech yn argymhell cwblhau cynllun rhithwir i fyfyrwyr eraill?

Byddwn!

**“Cefais brofiad gwych yn siarad â'm mentora, un a oedd, yn fy marn i, o fudd i'r ddwy ochr: Dysgais lawer am y frwydr y mae myfyrwyr presennol yn ei hwynebu yn y cyfnod ansicr hwn, a gobeithio y gallwn roi cyngor defnyddiol ynghylch rhwydweithio, ceisiadau am swyddi a chydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Roedd yr adnoddau a ddarparwyd drwy gydol y cynllun yn rhagorol, a gwnes i werthfawrogi'r amser a'r ymdrech a roddodd y Brifysgol i gefnogi'r mentora i'r mentor.”**

**Sandy Kelly, EDF**

## HYDER O RAN GYRFA

### Ariennir Hyder o ran Gyrfa: cefnogi myfyrwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn Addysg Uwch, drwy MEDR.

Gall Hyderus o ran Gyrfa eich helpu i ddod o hyd i dalent, amrywiaethu eich gweithlu a chefnogi eich cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol.

Gallwch elwa o bersbectif ffres a syniadau newydd drwy gynnig profiad gwaith hyblyg i'n myfyrwyr. Gall y rhain fod yn rhithwir, wyneb yn wyneb neu'n gymysg.

#### Mae profiad gwaith yn amrywio o:

- Cwrdd â'r Gweithiwr Proffesiynol: hyd at dri chyfarfod byr.
- Lleoliadau taledig: hyd at 4 wythnos neu 20 diwrnod.
- Mewnwelediadau: hyd at 2 wythnos neu 10 diwrnod o brofiad gwaith di-dâl.

Mae gan Hyderus o ran Gyrfa gyllid hael i dalu am gyflog myfyrwyr pan fyddant ar lleoliad â thâl. Mae gennym hefyd gyllid i dalu am gyfleoedd hyfforddi, costau teithio a llety ac addasiadau rhesymol os oes angen.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:  
[careerconfident@caerdydd.ac.uk](mailto:careerconfident@caerdydd.ac.uk)

“ Er bod angen cymorth ar lleoliadau, maent hefyd yn darparu safbwyntiau newydd ac mae myfyrwyr yn ymgymryd â thasgau fel bod y sefydliad yn elwa hefyd. ”  
Ele Hicks, Rheolwr Polisi, Ymgysylltu ac Ymchwil ar gyfer Diverse Cymru - Adborth gan gyflogwr





**Enw:** Nicole Gulliford

**Cwrs:** MSc Polisi Cymdeithasol a Chyhoeddus

### Pa gymorth profiad gwaith a/neu cyflogadwyedd wnaethoch chi ei gyflawni drwy Hyderus o ran Gyrfa?

Ymgymerais â rôl Mewnwelediad Polisi ac Ymchwil. Cefais amrywiaeth o dasgau gan gynnwys cwestiynau ac atebion gydag aelodau staff, darllen ethos elusen, edrych ar ddogfennau ac ymgynghoriadau'r llywodraeth, gweithio ar grynodedeb ar gyfer ymateb diwygio gofal cymdeithasol, ysgrifennu sylwadau o Pride, cyfarfod grŵp cynghori a thrawsgrifio. Teimlais fod fy mhrofiad yn amrywiol a chadarnhaol, yn enwedig cyfarfod â phobl eraill.

### Beth wnaethoch chi ei ddatblygu trwy Hyder o ran Gyrfa?

Roeddwn i eisiau datblygu fy nghyflogadwyedd ac adeiladu fy CV gan ei fod yn eithaf byr a heb fod yn amrywiol o gwbl. Roedd yn bwysig i mi gael hyblygrwydd oherwydd fy nghyflwr iechyd. Cefais brofiad hyblyg a wnaeth fy CV yn fwy amrywiol a diddorol.



Diverse Cymru



Mewnwelediad di-dâl



Swyddog Polisi



diversecymru.org.uk



diverse  
cymru

Promoting equality for all  
Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

Mae hyn wedi bod yn hwb enfawr i fy hyder fel rhywun o gefndir cymdeithasol-economaidd is ac mae bod y cyntaf i fynd i'r brifysgol felly mae cael y gefnogaeth hon yn golygu fy mod wedi gallu ehangu.

**“Datblygais sgiliau cyfathrebu a gweithio'n annibynnol mewn amgylchedd nad wyf wedi'i brofi o'r blaen. Rwy'n credu fy mod wedi dod yn fwy hyderus i wneud cais am swyddi yn y trydydd sector...”**

### Disgrifiwch y cymorth profiad gwaith / cyflogadwyedd a wnaethoch?

Roedd fy mhrofiad gwaith o fewn tîm polisi Diverse Cymru. Datblygais sgiliau cyfathrebu a gweithio'n annibynnol mewn amgylchedd nad wyf wedi'i brofi o'r blaen. Rwy'n credu fy mod wedi dod yn fwy hyderus i wneud cais am swyddi yn y trydydd sector gan fod fy ethos a'm gwerthoedd a'm sgiliau fy hun yn cyd-fynd â gwaith elusennol. Datblygais hefyd reolaeth amser trwy gydbwysu fy mywyd fy hun ac ymrwymiadau academaidd gyda fy mhrofiad gwaith.

### A fydddech chi'n argymhell Hyder o ran Gyrfa? Os felly, pam?

Dwi wir yn argymhell! Roeddwn i'n hoffi gwybod bod gen i gefnogaeth yn y cefndir felly os oeddwn i erioed yn teimlo'n ansicr am fy mhrofiad yna roedd gen i gysylltiadau â rhywun y tu allan i'r amgylchedd gwaith a oedd yn gwybod fy amgylchiadau.



## Cefnogi eich anghenion

Rydym ni'n ymroi i baratoi ein myfyrwyr ar gyfer y byd masnachol gyda'r sgiliau a'r nodweddion y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.


Drwy recriwtio ein myfyrwyr, byddwch yn cyflogi unigolion talentog, brwdfrydig a hynod fedrus sy'n awyddus i ddysgu a rhoi eu sgiliau ar waith.

Ewch i'n **tudalennau busnes** i gael gwybod sut i gael gafael ar ein gwybodaeth a'n harbenigedd, gan gynnwys cyfleoedd ymchwil cydweithredol. Gan weithio gyda'n gilydd, gallwn eich helpu i ddod o hyd i'r arbenigedd cywir ar gyfer eich gofynion.

I gael rhagor o wybodaeth neu i drafod anghenion eich busnes yn fanylach, mae croeso ichi gysylltu â ni:

**Tîm Ymgysylltu â Chyflogwyr**  
employerservices@caerdydd.ac.uk  
+44 (0)29 2087 4230

**Tîm Profiad Gwaith**  
workexperience@caerdydd.ac.uk



“ Mae cwblhau lleoliad yn hollol wahanol i bopeth rwyf wedi'i wneud o'r blaen. Roeddwn i'n amheus ar y dechrau ac nid oeddwn yn siŵr faint y byddwn i'n ei fwynhau ond rwyf mor falch o fod wedi cael y cyfle i'w gwblhau! Cefais brofiad mor anhygoel a dysgu cymaint – o sgiliau newydd i sut i gyfathrebu ag eraill mewn amgylchedd corfforaethol, a hefyd pethau amdanaf fi fy hun fel pa agweddau ar waith rwy'n eu mwynhau a'r hyn yr hoffwn ei wneud yn y dyfodol. Rwyf wedi gwneud cynifer o ffrindiau a chysylltiadau, wedi synnu fy hun gyda pha mor wydn a chryf y gallwn fod, ac erbyn hyn mae gennyf ddull newydd o weithio. ”

**Emily Clubley, Ysgol Busnes Caerdydd.**  
Blwyddyn ar leoliad gwaith yn Janssen  
(Johnson & Johnson)

